

PARTNERIAETH MOROEDD AC ARFORDIROEDD CYMRU

(Arwain Adferiad Glas)

Blwyddyn 2: Hydref 2022 – Medi 2023

Crynodeb

Nodwyd tri maes gwaith – y mae darpariaeth yn cael ei llesteirio hebddynt gan ddiffyg ymrwymiad, cyllid hirdymor, capasiti a gallu – er mwyn cyflymu a galluogi camau gweithredu ar gyfer ein hamgylchedd morol, ein heconomi, a'n llesiant cymdeithasol a diwylliannol:

- **Llythrennedd y môr** – meithrin dealltwriaeth ynghylch sut mae pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru yn cysylltu â moroedd ac arfordiroedd Cymru, effaith ein gweithredoedd ar y cyd ac unigol ar iechyd y môr, a sut mae iechyd y môr yn effeithio ar ein bywydau bob dydd – gan arwain at welliannau yn y ffordd yr ydym yn rheoli a defnyddio ein harfordiroedd a'n moroedd;
- **Buddsoddiad cynaliadwy** – sicrhau ffurfiau arloesol a thymor hwy o gyllid cyhoeddus, preifat a chyfunol – i gyflawni amcanion allweddol: adfer Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a thrawsnewid systemau economaidd-gymdeithasol;
- **Adeiladu capasiti** – galluogi cydweithredu a chydgyhychu i annog gweithredu cydgysylltiedig, yn lleol gyda'n cymunedau, yn genedlaethol ac ar draws ffiniau, i ymateb i anghenion a chyfleoedd newidiol, wrth i'r pwysau ar ein moroedd a'n harfordiroedd gynyddu ac wrth i amodau newid.

Mae'r adroddiad uchafbwyntiau prosiect hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd rhwng Medi 2022 a Hydref 2023.

Mae'r grŵp wedi cael tri chyfarfod partneriaeth llawn, gyda chyfarfodydd pellach o'r gweithgorau yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn.

I grynhoi, mae'r grŵp wedi:

- Ail-lansio fel Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru) gan y Gweinidog Newid Hinsawdd
- Cyhoeddi'r naratif ar y cyd a'r cylch gorchwyl diwygiedig ar wefan Llyw.Cymru [Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru \(PMaA Cymru\) | LLYW.CYMRU](#)
- Sefydlu gweithgor llythrennedd y môr, sydd wedi creu rhwydwaith o hyrwyddwyr sydd bellach yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn rhannu dysgu ac arfer gorau ledled Cymru a thu hwnt
- Trwy'r gweithgor, datblygu gweledigaeth a strategaeth ddrafft ar gyfer llythrennedd y môr yng Nghymru, gan geisio cyllid bellach i ehangu ymgysylltiad i fireinio a chyflwyno cynllun gweithredu gyda'r nod o feithrin llythrennedd y môr ar draws pob rhan o gymdeithas
- Sefydlu gweithgor buddsoddi glas, a chytuno ar bedwar cam allweddol – nodi ffynonellau cyllid cynaliadwy, sefydlu cronfa ddata o gyllid ar gyfer prosiectau

morol, cyfeirio'r cyllid hwn at brosiectau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt, a chyfrannu at osod safonau ar gyfer buddsoddiad cyfunol yng Nghymru

- Trwy'r gweithgor buddsoddi glas, datblygu cynnig ar gyfer cronfa datblygwyr, sef teitl gweithredol Cronfa Ecosystemau Gwydn a Gwella Cymru (WREEF)
- Cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad Cynllun Morol a Physgodfeydd Cymru, a chychwyn a llywio Cronfa Her Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol, a'r Gronfa Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol ddilynol
- Dechrau gwaith i archwilio sefydlu PMAA fel y fframwaith cenedlaethol ar gyfer cydgysylltu arfordirol
- Adolygu argymhellion Bioamrywiaeth 30x30, gan gymryd perchnogaeth o argymhellion morol a nodi cysylltiadau pellach â gwaith PMAA Cymru
- Cefnogi a hwyluso penodiad gan y Gweinidog o gadeirydd newydd i weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer y bartneriaeth a'r gwaith y mae'n parhau i'w gyflawni
- Gwella'r dull o rannu gwybodaeth ar draws y sector morol trwy gylchlythyr rheolaidd

Cyflwyniad

Yn dilyn y gwaethaf o'r pandemig Covid, daeth rhanddeiliaid morol a physgodfeydd, sef y Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol, at ei gilydd i ystyried y ffordd orau o gefnogi camau datblygu cynaliadwy i helpu cymunedau arfordirol i adfer, ac i gyflawni ein gweledigaeth o foroedd Cymru sy'n lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn amrywiol yn fiolegol.

Fel grŵp, fe wnaethant nodi'r angen am becyn o gamau galluogi er mwyn ehangu a chyflawni prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu presennol, yn ogystal â diffinio rhai newydd i ddarparu ecosystemau morol gwydn trwy ddatrysiadau ar sail natur a chyfleoedd economaidd-gymdeithasol.

Mae'r camau galluogi hyn yn perthyn i dair thema:


- **Llythrennedd y môr** – *meithrin dealltwriaeth ynghylch sut mae pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru yn cysylltu â moroedd ac arfordiroedd Cymru, effaith ein gweithredoedd ar y cyd ac unigol ar iechyd y môr, a sut mae iechyd y môr yn effeithio ar ein bywydau bob dydd – gan arwain at welliannau yn y ffordd yr ydym yn rheoli a defnyddio ein harfordiroedd a'n moroedd;*
- **Buddsoddiad cynaliadwy** – *sicrhau ffurfiau arloesol a thymor hwy o gyllid cyhoeddus, preifat a chyfunol – i gyflawni amcanion allweddol: adfer Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a thrawsnewid systemau economaidd-gymdeithasol;*
- **Adeiladu capasiti** – *galluogi cydweithredu a chydgyhyrchu i annog gweithredu cydgysylltiedig, yn lleol gyda'n cymunedau, yn genedlaethol ac ar draws ffiniau, i ymateb i anghenion a chyfleoedd newidiol, wrth i'r pwysau ar ein moroedd a'n harfordiroedd gynyddu ac wrth i amodau newid.*

Yn dilyn comisiwn gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, mewn ymateb i'r [Adroddiad Adferiad Glas](#), cynhaliwyd gweithdy cychwynnol ym mis Rhagfyr 2021 i nodi a blaenoriaethu cyfres o gamau gweithredu i gyflawni yn erbyn y galluogwyr allweddol.

Nodwyd y camau gweithredu canlynol:

- Canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd a chyrhaeddiad mecanweithiau presennol – er enghraifft, ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd priodol a chysylltu â chymunedau arfordirol, gan gynnwys trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Adeiladu ar y rhaglenni gwaith sylweddol sydd eisoes ar waith ond y mae angen eu huwchraddio / gwell adnoddau arnynt i alluogi darpariaeth gyflymach. Mae Ffigur 1 isod yn crynhoi'r dull hwn.
- Dysgu o'r enghreifftiau o brosiectau / gwaith cyfredol ac arfer gorau a allai lywio rhaglen gyflawni ehangach ledled Cymru.
- Defnyddio gweithgorau presennol a allai gyflawni'r gwaith partneriaeth gofynnol, gan wneud yn siŵr eu bod wedi'u cysylltu'n well a bod unrhyw fylchau yn cael eu nodi.

- Bod yn CAMPUS (Cyraeddadwy {gan y bartneriaeth}, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)



Ffigur 1: Cynrychioli sut mae'r tair thema yn cefnogi darpariaeth rhaglenni, prosiectau a defnydd o'r moroedd, wrth sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella ecosystemau morol gwydn.

Mae [Adroddiad Uchafbwyntiau 2021 – 2022](#) yn rhoi trosolwg o weithgarwch yn y flwyddyn gyntaf o gyflawni gwaith Arwain Adferiad Glas, sydd bellach wedi'i ailfrandio fel Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMaA Cymru) – Tuag at Wytwnch Morol.

Yn yr ail flwyddyn hon, mae'r bartneriaeth wedi adeiladu ar y camau gweithredu a nodwyd yn y flwyddyn gyntaf.

Llythrennedd y Môr

Y canlyniadau / mesurau llwyddiant ar gyfer y thema hon fel a ganlyn:

- Mae llythrennedd morol yn cael ei ddatblygu ar draws pob rhan o gymdeithas fel y bydd dealltwriaeth o arwyddocâd a phwysigrwydd ein moroedd a'n harfordiroedd yn annog gweithredu pellach ar draws cymdeithas a meysydd polisi.
- Mae strategaeth llythrennedd y môr yn nodi ac yn cyflawni set o ganlyniadau ac is-ganlyniadau i gyflawni'r uchod.

Mae gweithgor wedi'i sefydlu ac yn cael ei gydlynu gan Kirsty Lindenbaum a Kath Hughes yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Bellach mae gan y grŵp gyfanswm o 24 o aelodau, sy'n cynrychioli 13 o wahanol sefydliadau rhyngddynt. Mae hyn yn cynrychioli rhwydwaith newydd yng Nghymru ac mae aelodau unigol eisoes yn tynnu sylw at fanteision y dysgu ac arbenigedd a rennir yn y grŵp ehangach hwn.

Mae'r grŵp wedi cael cyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb rheolaidd i lunio Strategaeth Llythrennedd y Môr ddrafft a chynllun gweithredu, yn ogystal â defnyddio cyfarfodydd i wahodd siaradwyr i rannu eu gwaith ar weithredu llythrennedd y môr yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Mae'r ddogfen strategaeth ddrafft yn barod i'w rhannu â'r grŵp PMaA ehangach ar gyfer trafodaeth bellach, gwaith mireinio ac ymgysylltu ehangach ynghylch camau gweithredu y gallwn eu cymryd gyda'n gilydd.

Y weledigaeth ac amcanion drafft yw:

Gweledigaeth: Mae pobl Cymru yn gysylltiedig â'n moroedd a'n harfordiroedd, yn eu deall ac yn eu gwerthfawrogi, gan wneud penderfyniadau gwybodus bob dydd sy'n cefnogi perthynas ddiogel a chynaliadwy â natur.

Amcanion

- **Cysylltiad** â'r môr: Corfforol ac emosiynol. Mae cael mynediad i fannau morol ac arfordirol a'u profi mewn gwahanol ffyrdd, gan fod ym myd natur a theimlo'n gyfforddus ynddynt, yn un o'r camau cyntaf tuag at ddatblygu cysylltiad cryf.
- **Dealltwriaeth** o'r môr: Gwybodaeth, ymwybyddiaeth ac effaith. Mae gwneud penderfyniadau gwybodus yn hanfodol i newid ymddygiad cadarnhaol, ac mae hyn yn cynnwys deall eich effeithiau chi ac eraill, a'r angen am reolaeth gynaliadwy.
- **Gwerthoedd** y môr: Credoau ac egwyddorion. Cymryd safbwynt personol ar reoli ein hadnoddau naturiol nawr ac yn y dyfodol
- **Dylanwad** ar y môr: Yn "ddinesydd môr" gweithgar, cyfrifol a moesegol. Dylanwadu ar gymdeithas fel rhan o gymuned wydn a llewyrchus.

Ar hyn o bryd, mae'r grŵp am ymgysylltu'n ehangach â'r strategaeth ddrafft i fireinio hyn a denu partneriaid ehangach i gyfrannu at ddarpariaeth a'i chefnogi. Rydym hefyd wedi bod yn archwilio cyfleoedd ariannu i gael gafael ar adnoddau i gyflawni ymgysylltiad effeithiol, ac i roi cyfres o ddigwyddiadau 'Gŵyl y Môr' ar waith i ddathlu'r moroedd a'u defnyddiau lluosog mewn digwyddiadau ledled Cymru yn ystod 2025.

Buddsoddiad Glas¹

Nod y thema hon yw sicrhau cyllid arloesol a hirdymor i ddarparu ecosystemau morol gwydn. Amcan y canlyniadau / mesurau llwyddiant a geisir o dan y thema hon yw:

- Nodi ffynonellau cyllid, presennol a newydd, i alluogi adferiad glas.
- Darparu eglurder a phrosiectau diriaethol y gellir eu hariannu sy'n dangos/sicrhau adferiad glas i ddarpar gyllidwyr / ffrydiau ariannu.

Mae Gareth Cunningham, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, yn arwain y gweithgor buddsoddiad glas, sydd bellach yn cyfarfod bob mis.

¹ Wedi'i ailenwi o fuddsoddi cynaliadwy i wahaniaethu oddi wrth grwpiau eraill yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar y canlynol:

- 1) Mapio pa gyllid sydd ar gael i osgoi unrhyw ddyblygu arian presennol. Mae newidiadau cychwynnol wedi'u gwneud i lwyfan Cyllido Cymru a gynhelir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i nodi'r holl gyllid sy'n berthnasol i'r amgylchedd morol. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, bydd dadansoddiad yn cael ei wneud i helpu i lywio a mynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad at gyllid.
- 2) Nodi darlun clir o'r hyn yr ydym am ei ariannu i sicrhau bod yr arian a fuddsoddir yn ennyn manteision yng Nghymru. Mae hyn wedi dechrau trwy gysylltu â gwaith a wnaed gan CNC i fapio rhwydweithiau natur a chyfleoedd ar gyfer gwella ac adfer yn y dyfodol.
- 3) Datblygu fframwaith ariannu gwirfoddol a thymor hir a fydd yn ategu cyllid y llywodraeth. Mae grŵp gorchwyl a gorffen llai wedi bod yn cydweithio â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i ddatblygu fframwaith ariannu gyda theitl gweithredol Cronfa Ecosystemau Gwydn a Gwella Cymru (WREEF). Y cam nesaf ar gyfer y gwaith hwn fydd mynd at fuddsoddwyr posibl i fesur diddordeb a datblygu'r model ymhellach.
- 4) Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd â chyflawni argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth (gweler isod), gan gynnwys datblygu egwyddorion ar gyfer buddsoddiad cyfrifol sy'n berthnasol i'r amgylchedd morol.

Adeiladu Capasiti

Nod y thema hon yw galluogi a chynyddu ymgysylltiad cymunedol ystyrion i nodi chyfleoedd a heriau lleol a chynyddu parodrwydd i fuddsoddi.

Mae set o ganlyniadau ar gyfer y thema hon wedi'i datblygu:

- Rhwydwaith eang o randdeiliaid morol a physgodfeydd sy'n gweithredu fel fforwm ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth ar lefel lleol a gweithredol.
- Gwell cydreolaeth o'r ecosystem forol, gan arwain at welliannau ar ystod o ddangosyddion ecosystemau morol a nodwyd yn lleol.
- Proses fwy gwybodus a chydweithredol ar gyfer caniatáu datblygiadau morol, gan arwain at weithredu effeithlon ac amserol.
- Gwell proffidioldeb trwy gryfhau cadwyni cyflenwi lleol.
- Gwell cynigion twristiaeth yn ymwneud â'r amgylchedd.
- Gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o faterion morol (llythrennedd y môr) ac, o ganlyniad, lefelau uwch o ymgysylltu/gweithgarwch cyhoeddus mewn cymunedau arfordirol lleol.
- Ceisiadau cyllid llwyddiannus i gynlluniau cymorth ariannol.

Mae'r thema adeiladu capasiti yn perthyn i themâu llythrennedd y môr a buddsoddiad glas hefyd, ac mae gwaith i gwrdd â'r thema hon yn mynd rhagddo drwy'r gweithgorau hynny.

Fodd bynnag, y prif ffocws eleni fu cefnogi datblygiad Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru, sef mecanwaith ariannu allweddol ar gyfer y sectorau morol a physgodfeydd,

ac yn arbennig y [Gronfa Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol](#), drwy Grŵp Cynghori ar Bolisi Cyllido Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn gwaith dadansoddi'r [adolygiad tystiolaeth a gweithdai rhanddeiliaid](#), agorwyd Cronfa Her Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol i weld pa fath o weithgareddau y byddai buddsoddiad yn y maes hwn yn eu cefnogi. Ariannwyd cyfanswm o 14 o brosiectau gydag ystod eang o allbynnau.

Yn ogystal â hyn, mae'r Gronfa Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol bellach yn cael ei darparu drwy Bartneriaethau Natur Lleol drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Cafwyd y cyfle ymgeisio cyntaf ym mis Awst ond daeth hwn i ben ddiwedd mis Medi. Mae gan y gronfa gyllideb o £1 miliwn dros ddwy flynedd, sef £500,000 y flwyddyn.

Arweiniodd Peter Davies, cadeirydd ymadawol PMAA, ar gamau gweithredu pellach yn y maes gwaith hwn, gan gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer parciau cenedlaethol morol yng Nghymru, a chreu cysylltiadau â Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yng nghyfarfod mis Mehefin, cyflwynwyd cynnig mai PMAA yn ei hanfod yw'r grŵp arwain fframwaith cenedlaethol, fel y'i cynigiwyd ar gyfer Lloegr gan y Rhwydwaith Partneriaethau Arfordirol. Cytunwyd, pe bai PMAA i bob pwrpas yn gorff cenedlaethol i Gymru, y byddai angen sawl cam gweithredu:

- Bod â gwell cysylltiad â'r Rhwydwaith Partneriaethau Arfordirol a chytuno ar brif bwynt cyswllt
- Mapio rhwydweithiau a strwythurau llywodraethu presennol, o bosibl trwy iteriad o'r Cyfeiriadur Arfordirol
- Dod â'r rhwydwaith ehangach o bartneriaethau at ei gilydd yng Nghymru, gan gysylltu â gwaith llywodraethu'r sector cynllunio morol, a fforymau arfordirol
- Sefydlu grŵp llywodraethu i reoli gweithrediadau gweinyddol
- Meddu ar fframwaith deddfwriaethol yn sail i'r corff cenedlaethol

Bydd y cadeirydd newydd bellach yn arwain ar y maes gwaith hwn.

Argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

Roedd cyfarfod PMAA fis Chwefror yn cynnwys gweithdy i ystyried lle byddai'r bartneriaeth yn cymryd perchnogaeth dros argymhellion a/neu gamau gweithredu sy'n deillio o argymhellion [Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth](#) y Gweinidog Newid Hinsawdd. Gwnaeth y bartneriaeth adolygu'r 'mesurau llwyddiant' i adlewyrchu'r gwaith y mae PMAA Cymru yn ei gyflawni tuag at y rhain, yn ogystal â nodi meysydd pellach y gall y bartneriaeth gyfrannu dimensiwn morol atynt. Mae'r negeseuon allweddol ar gyfer pob un o themâu PMAA wedi'u crynhoi isod:

Adeiladu Capasiti: Mae camau gweithredu PMAA yn cyd-fynd yn dda ag Argymhelliad 5, yn enwedig ehangu a gwella cynlluniau adeiladu gallu a chapasiti i gefnogi'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i gyflymu'r gwaith o gyflawni ar gyfer adferiad byd natur. Mae PMAA wedi tynnu sylw at yr angen i nodi gofynion ariannu a gwella dealltwriaeth o gapasiti yng Nghymru. I gefnogi adferiad

byd natur yn yr amgylchedd morol, pwysleisiwyd ymagwedd gynhwysfawr yn cynnwys y gwyddorau cymdeithasol ac ailsigilio.

Llythrennedd y Môr: Mae mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd yn gofyn am fwy o addysg ac ymwybyddiaeth, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â llythrennedd y môr. Ystyriwyd bod pontio sectorau amrywiol, megis twristiaeth a hamdden, ac integreiddio ag ymdrechion presennol, yn hanfodol ar gyfer ymagwedd gydlynol, gan gynnwys sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cyflawni ar gyfer y sector morol ac arfordiroedd, ac yn cysylltu â'r dirwedd ehangach. Hefyd yn cyd-fynd ag Argymhelliaid 5, bydd strategaeth llythrennedd y môr yn cyflawni'r camau gweithredu tymor hwy i wella addysg ac ymwybyddiaeth o'r argyfyngau natur ac hinsawdd a'r camau gweithredu y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd.

Buddsoddiad Glas: Cysylltiad clir iawn rhwng y camau gweithredu PMAA hyn ac Argymhelliaid 6 ynghylch cyllid cyhoeddus a phreifat. Tanlinellwyd creu ecosystemau morol gwydn trwy fapio gwaith adfer a meithrin cysylltiadau rhwng y tir a'r môr. Argymhellwyd strategaethau cyfathrebu effeithiol yn canolbwyntio ar fuddion a hygyrchedd, wrth fynd i'r afael â rhwystrau ariannu a monitro heriau i ddatblygu opsiynau ariannu deinamig, gan fabwysiadu dull tebyg i Gronfa Gwella Amgylchedd Môr yr Alban yng Nghymru.


Llywodraethu

Lansiwyd Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru (PMAA Cymru) ar ei newydd wedd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Hydref 2022, a chyhoeddwyd [cylch gorchwyl](#) diwygiedig ym mis Ionawr 2023. Ar ôl proses recriwtio penodiadau cyhoeddus, penodwyd y Gweinidog Dr David Tudor yn gadeirydd newydd, yn dilyn ymddeoliad Peter Davies o'r rôl y bu ynddi ar sawl ffurf ers deng mlynedd. Cydnabuwyd gwaith amhrisiadwy Peter i feithrin cydweithredu, meithrin perthnasoedd cryf ac eirioli dros reolaeth gynaliadwy yn yr amgylchedd morol mewn llythyr o ddiolch gan y Gweinidog, a chan y seremoni ffarwel a roddwyd iddo gan gydweithwyr a phartneriaid yn ei gyfarfod diwethaf. Bydd ei arweiniad, ei weledigaeth a'i ymrwymiad yn cael eu colli, ond edrychwn ymlaen at dwf a llwyddiant parhaus y bartneriaeth o dan arweinyddiaeth newydd.

Yn ogystal ag arwain y bartneriaeth, mae gan y cadeirydd newydd gylch gwaith clir i ddarparu llysgennad allblyg i fod yn eiriolwr gweithredol dros ein moroedd a'n harfordiroedd ar ran y Gweinidog Newid Hinsawdd, ac i ehangu cyrhaeddiad ac amrywiaeth y bartneriaeth.

Cynhaliwyd tri chyfarfod partneriaeth llawn yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chyfarfodydd gweithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen, a dangosir y rhain yn **Atodiad 1**. Cyhoeddir cofnodion cryno o gyfarfodydd llawn y bartneriaeth ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru. Darperir yr ysgrifenyddiaeth gan Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru.

Dangosir strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd, a grwpiau cysylltiedig, yn Ffigur 2 isod. Mae cynllun cyflawni drafft wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, ond caiff hwn ei wella a'i fireinio gan grŵp rheoli, sy'n cynnwys y cadeirydd, arweinwyr thema a'r ysgrifenyddiaeth, dros y chwe mis nesaf.



*Formally Sustainable Investment and can appear so in documents prior to 2023.

Ffigur 2: Strwythur llywodraethu presennol PMAA Cymru.

Cyfathrebu

Un o flaenoriaethau allweddol y grŵp oedd datblygu '[naratif ar y cyd](#)' strategol ac atyniadol â ffocws i sicrhau bod aelodau'r bartneriaeth yn gweithio tuag at ddiben a chanlyniadau a rennir, a darparu negeseuon cyson. Cyhoeddwyd hwn ym mis Rhagfyr 2022 ac mae'n gefndir i holl gyfathrebiadau a chamau gweithredu PMAA Cymru.

Mae cylchlythyr bellach yn cael ei ddsbarthu i bartneriaid yn rheolaidd, yn rhannu newyddion, cyhoeddiadau ac ymgynghoriadau. Anogir partneriaid i rannu gwybodaeth ar gyfer y cylchlythyr trwy'r ysgrifenyddiaeth, ac i ddsbarthu'r cylchlythyr neu ei gynnwys trwy eu rhwydweithiau a phartneriaid eu hunain.

Yn 2022/23, siaradodd y cadeirydd a'r ysgrifenyddiaeth mewn sawl digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o'r bartneriaeth a'i gwaith. Gobeithir ymestyn yr allgymorth hwn dros y flwyddyn nesaf drwy Wythnos Hinsawdd Cymru, a chynhadledd genedlaethol Coastal Futures. Mae gwaith wedi dechrau i'r Strategaeth Llythrennedd y Môr ddod yn weithgarwch cydnabyddedig Degawd Gwyddor Eigion y Cenhedloedd Unedig.

Y Camau Nesaf

Mae'r 'Cynllun Cyflawni ar Dudalen' yn nodi'r canlyniadau, meysydd gwaith a chamau gweithredu y bydd y gweithgorau'n parhau i weithio tuag atynt (gweler **Atodiad 2**). Bydd y bartneriaeth yn monitro ac yn adolygu cynnydd y camau hyn,

gan werthuso llwyddiant a nodi camau gweithredu ychwanegol i gyflawni'r canlyniadau. Bydd y cynllun cyflawni yn parhau i fod yn ailadroddol a bydd yn esblygu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, cam gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd sefydlu llinell sylfaen fwy cadarn ar gyfer monitro ac asesu cynnydd a chanlyniadau llwyddiannus.

Bydd argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth hefyd yn cael eu hadrodd trwy ddiweddariadau cynnydd bob chwe mis.

Amserlen Cyfarfodydd 2023

Cyfarfodydd partneriaeth lawn

- 5 Hydref 2023, cyfarfod drwy'r dydd i'w gynnal yng Nghaerdydd. Y Gweinidog Newid Hinsawdd i groesawu Dr David Tudor yn gadeirydd newydd.
- Dyddiadau dros dro ar gyfer 2024:
 - Dydd Iau 22 Chwefror
 - Dydd Iau 13 Mehefin

Cyfarfodydd a drefnwyd gan weithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen:

- Gweithgor Buddsoddiad Glas – Yn fisol ar ail ddydd Iau y mis
- Cyfarfod nesaf Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cronfa Ecosystemau Gwydn a Gwella Cymru (WREEF) – 11 Hydref
- Gweithgor Llythrennedd y Môr – i'w gadarnhau
- Grŵp Cynghori ar Bolisi Cyllido – i'w gadarnhau

Gweler **Atodiad 1** isod ar gyfer amserlen cyfarfodydd llawn Blwyddyn 2.

Atodiad 1 – Amserlen cyfarfodydd Blwyddyn 2

Cyfarfod partneriaeth lawn PMAA	Llythrennedd y Môr	Buddsoddiad Glas	Adeiladu Capasiti
6/10/22 – Caerdydd			
		19/10/22 Gweithgor	
	27/10/22 Gweithgor		16/11/22
		01/12/22 Gweithgor	
	14/12/22 Gweithgor		
		01/02/23 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cronfa Ecosystemau Gwydn a Gwella Cymru (WREEF)	
15/02/23 – Ar-lein			
	06/03/23 Gweithgor		
		31/03/23 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cronfa Ecosystemau Gwydn a Gwella Cymru (WREEF)	
	03/05/23 Gweithgor	04/05/23 Gweithgor	
		09/06/23 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cronfa Ecosystemau Gwydn a Gwella Cymru (WREEF)	
	20/06/23 Gweithgor		
21/06/23 – Saundersfoot			
	5 & 6/07/23 Datblygu strategaeth		
	17/07/23 Datblygu strategaeth		
	19/07/23 Gweithgor		
		10/08/23	

		Gweithgor	
	11/09/23 Gweithgor	11/09/23 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cronfa Ecosystemau Gwydn a Gwella Cymru (WREEF)	
		14/09/23 Gweithgor	

Atodnod 2 – Cynllun Cyflawni



CaSP Cymru -
Delivery Plan Overview